# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 30 Tachwedd 2020

Amser: 14.30 - 15.55

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6561

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Nick Ramsay AS<br>Mark Reckless AS |
| Tystion: | Matthew Jenkins, Llywodraeth Cymru<br>Anna Adams, Llywodraeth Cymru<br>Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Julian Revell, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br><br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br><br>Christian Tipples (Ymchwilydd) |

## 1 Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol – Briff technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru

1.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio dechnegol ar y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol gan Matthew Jenkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Partneriaethau a Chydweithrediad, Llywodraeth Cymru; ac Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Pennaeth Polisi Strategaeth Treth ac Ymgysylltu, Llywodraeth Cymru.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

## 3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 3.1 PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd: Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020 – 11 Tachwedd 2020

### 3.2 PTN 2 – Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru: Cod Ymarfer Archwilio – 18 Tachwedd 2020

### 3.3 PTN 3 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Dyletswydd economaidd-gymdeithasol – 25 Tachwedd 2020

## 4 Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a gweithredu’r Fframwaith Cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 9

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru; a Julian Revell, Pennaeth Dadansoddiad Cyllidol, Trysorlys Cymru ar ei ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014, a gweithrediad y Fframwaith Cyllidol.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn a’r cyfarfod ar 7 Rhagfyr

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a gweithredu’r Fframwaith Cyllidol: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Adroddiad ar Alldro 2019-20 – Llywodraeth Cymru

7.1 Trafododd y Pwyllgor adroddiad Llywodraeth Cymru ar Alldro 2019-20.

## 8 Rôl a Chylchoedd Gwaith Sefydliadau Cyllidol Annibynnol – Cynulliad Gogledd Iwerddon

8.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr a'r papur ymchwil cysylltiedig gan Gynulliad Gogledd Iwerddon.